

I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch

Cyfeirnod:	W04/23HE
Dyddiad:	5 Ebrill 2004
Ymateber erbyn:	18 Mehefin 2004
Gwybodaeth bellach:	Alison Allan

CYMRODORIAETHAU ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG

Yn ystod 2003/04 darparodd y Cyngor gyllid i gefnogi dwy Gymrodoriaeth Addysgu Cyfrwng Cymraeg (Cylchlythyr W03/51HE) mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Sefydlwyd y cynllun fel mesur dros dro, gan ddefnyddio adnoddau cyfredol y Cyngor, wedi i Lywodraeth Cynulliad Cymru nodi na allai, yn y tymor byr o leiaf, ddarparu cyllid i gefnogi cynigion ar gyfer cynllun ysgoloriaethau ôl-raddedig mwy sylweddol wedi'i lunio i gynyddu nifer y staff academiaidd a allai addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y pryd, cyhoeddodd y Cyngor mai cynllun ar gyfer 2003/04 yn unig fyddai hwn yn y lle cyntaf. Byddai ei barhad yn dibynnu ar yr adnoddau a fyddai ar gael yn y dyfodol; dewis y Cyngor fyddai gweithredu'r cynllun ysgoloriaethau ôl-raddedig llawn a gynigiwyd i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r Cymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg wedi cael croeso mawr yn y sector ac mae llawer wedi gofyn a fydd y cynllun yn parhau yn 2004/05. Fel y gŵyr y sefydliadau, sefydlodd y Cyngor Grŵp Llywio Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg y llynedd sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector addysg uwch a chyrrff perthnasol eraill. Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y Grŵp Llywio ar 29 Mawrth, gall y Cyngor gadarnhau y bydd y cynllun yn gweithredu yn 2004/05 ac y cynyddir nifer y cymrodoriaethau sydd ar gael. Bu'n rhaid rhoi cynllun y llynedd at ei gilydd ar fyrder a gobeithir y bydd y cyhoeddiad cynharach eleni yn rhoi mwy o amser i sefydliadau ystyried ymgeiswyr priodol.

Bydd y Cyngor yn cyfrannu at **bedair Cymrodoriaeth Addysgu Cyfrwng Cymraeg amser-llawn naw-mis** yn y sector yn ystod 2004/05. Mae cyfanswm o £50,000 ar gael. (Fodd bynnag, yn dibynnu ar ansawdd yr ymgeiswyr ac adnoddau, gallai fod yn bosibl cynnig hyd at chwe chymrodoriaeth.)

- Anelir y cymrodoriaethau at y rhai sydd newydd gwblhau eu hymchwil ôl-raddedig ac sydd wedi cyflwyno eu traethawd PhD, neu a fydd yn ei gyflwyno cyn diwedd 2004. Mae'n gonsym penodol i'r Cyngor nad yw'r cymrodoriaethau hyn yn cael eu hystyried fel cyfnod pellach o ymchwil ôl-raddedig neu fel cyfle i fyfyrwr oedi cyn cyflwyno. Er y byddai'r deiliad yn gallu ymgymryd â gweithgaredd ymchwil yn ystod cyfnod y gymrodoriaeth, y prif ymrwymiad fydd gofynion addysgu a datblygu darpariaeth y gymrodoriaeth (gweler isod).
- Dylai'r Cymrodoriaethau Addysgu Cyfrwng Cymraeg ddechrau ym mis Medi neu fis Hydref 2004 fel y bo'n briodol fel eu bod yn cwmpasu tri thymor y flwyddyn academiaidd 2004/05.

- Disgwylir i'r Cymrawd Addysgu Cyfrwng Cymraeg ymgymryd ag o leiaf bump awr o ddysgu israddedig drwy gyfrwng y Gymraeg bob wythnos (gyda chyfnod ychwanegol priodol ar gyfer paratoi fel y bo angen). Bydd disgwyl hefyd iddo/iddi ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd sy'n gyfwerth â modiwl 20 credyd o fewn eu maes.
- Wrth ddatblygu darpariaeth newydd, ac o bosibl o ran dysgu yn ogystal, anogir y Cymrawd Addysgu Cyfrwng Cymraeg i archwilio'r potensial ar gyfer cydweithio rhwng ac o fewn sefydliadau. **Bydd y deunyddiau a gynhyrchir ar gael i bob sefydliad yn y sector, fel rhan o ddatblygu'r ddarpariaeth.**
- Bydd y Cymrodyr Addysgu Cyfrwng Cymraeg yn cynnal cysylltiadau gweithio agos gyda Swyddog Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru, a fydd yn gyfrifol am weinyddu'r trefniadau ar gyfer y Cymrodoriaethau. Bydd disgwyl i'r Cymrodyr gyfrannu'n fwy cyffredinol tuag at ddatblygu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn eu disgyblaethau, gan gynnwys cymryd rhan mewn gweithgareddau a drefnir o dan nawdd Uned Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru.

Cyllid

- **Bydd y Cyngor yn cyfrannu £12,500 tuag at bob Cymrodoriaeth.** O'r swm hwn, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r sefydliad glustnodi £2,500 i'w ddefnyddio fel cyllid datblygu ar gyfer y modiwl cyfrwng Cymraeg newydd a gynhyrchir gan y Cymrawd Addysgu Cyfrwng Cymraeg.
- Bydd disgwyl i sefydliadau ddarparu cyllid ychwanegol er mwyn sicrhau bod y gymrodoriaeth ar lefel briodol o dâl, yn eu tŷb hwy, ac i dalu costau eraill sy'n gysylltiedig â'r gymrodoriaeth. Efallai y byddant hefyd yn gallu cyfrannu cyllid datblygu ychwanegol.
- Fel y nodwyd uchod, bydd y Cymrodoriaethau am gyfnod o naw mis. (Mae hyn yn cydnabod na fydd y cymrodoriaethau yn cychwyn ar ddechrau blwyddyn academaidd 2003/04. Fodd bynnag, pe bai'r sefydliad yn dymuno darparu cyllid er mwyn galluogi'r gymrodoriaeth i gwmpasu cyfnod llawn o ddeuddeg mis, gallant wneud hynny.)

Ceisiadau

- Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y cymrodoriaethau gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Y sefydliadau sy'n gyfrifol am ddewis ymgeiswyr priodol a gall pob sefydliad gynnig hyd at **dri** ymgeisydd. **Ni fydd ceisiadau gan unigolion yn cael eu derbyn.**
- Dylid cyflwyno'r ceisiadau (ar y ffurflen amgaeedig) erbyn **Dydd Gwener 18 Mehefin 2004.**
- Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried gan banel yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf a byddwn yn disgwyl cyhoeddi ein penderfyniad erbyn diwedd mis Gorffennaf. Efallai y byddwn yn dymuno cysylltu â'r ymgeiswyr yn ystod mis Hydref er mwyn asesu eu cymhwysedd ieithyddol llafar i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gall yr adrannau o'r ffurflen gais sydd i gael eu llenwi gan y sefydliad gael eu llenwi yn y Gymraeg neu'r Saesneg (neu'r ddwy). Ond disgwylir y bydd yr adrannau sydd i gael eu llenwi gan yr ymgeisydd yn cael eu llenwi yn y Gymraeg (er y gall y sefydliad ei hun ddymuno cael fersiwn Saesneg at ddibenion gweinyddol). Bydd hyn yn cyfrannu at asesiad y Panel o gymhwysedd ieithyddol ysgrifenedig yr ymgeisydd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Meini Prawf

Caiff ceisiadau eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- ansawdd yr ymgeisydd, fel y profwyd gan y wybodaeth a ddarparwyd ar y ffurflen gais ac unrhyw asesiad o gymhwysedd ieithyddol;
- cyfraniad
 - yr addysgu cyfrwng Cymraeg y bydd yr ymgeisydd yn ymgymryd ag ef, a'r
 - ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd a ddatblygir gan yr ymgeisyddtuag at ehangu/cryfhau y ddarpariaeth mewn pynciau lle ceir rhywfaint o ddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg eisoes neu tuag at ddatblygu darpariaeth mewn meysydd pwnc lle ceir ychydig neu ddim darpariaeth o gwbl ar hyn o bryd;
- perthnasedd y cais i strategaeth cyfrwng Cymraeg y sefydliad, gan gynnwys cynlluniau presennol a chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y pwnc/pynciau o dan sylw;
- y cyfraniad cyllidol a wneir gan y sefydliad i'r gymrodoriaeth;
- y cymorth a roddir i'r ymgeisydd gan y sefydliad, gan gynnwys cyfleusterau, cymorth mentora/academaidd, hyfforddi a datblygu, integreiddio gwaith addysgu'r cymrawd i weithgaredd cyffredinol yr adran.

Gan mai nifer cyfyngedig o gymrodoriaethau sydd ar gael, dylid cydnabod y gallai'r panel orfod gwneud penderfyniadau anodd wrth ddewis rhwng sawl cais sydd o bosibl yn haeddu cefnogaeth. Fodd bynnag, bydd penderfyniad y panel yn derfynol.

A wnewch chi nodi os gwelwch yn dda fod y Cymrodoriaethau Addysgu ar gyfer pynciau (heblaw am y Gymraeg) a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly nid ydynt ar gael ar gyfer adrannau Iaith a Llennyddiaeth Gymraeg.

Dylid danfon ffurflenni cais wedi'u cwblhau at Alison Allan erbyn **Dydd Gwener 18 Mehefin 2004**.

Yn gywir

PHILIP GUMMETT
PRIF WEITHREDWR DROS DRO

CYMRODORIAETHAU ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG 2004/05

FFURFLEN GAIS

Dylai Rhan Un o'r ffurflen gais gael ei chwblhau gan y sefydliad a Rhan Dau gan yr ymgeisydd ar gyfer y Gymrodoriaeth Addysgu. Rhaid i'r sefydliad gyflwyno dwy ran y ffurflen gais gyda'i gilydd. Ni dderbynnir ffurflenni cais gan unigolion.

Dylid anfon ffurflenni wedi'u cwblhau at:

Dr Alison Allan
Uwch Reolwr Dysgu ac Addysgu
CCAUC
Cwrt Linden
Y Berllan
Clos Ilex
Llanisien
CAERDYDD CF14 5DZ

erbyn Dydd Gwener 18 June 2004

RHAN UN – I'W CHWBLHAU GAN Y SEFYDLIAD

Gellir parhau ag unrhyw ran o'r cais ar dudalen ar wahân os oes angen

Sefydliad

Y maes/meysydd pwnc a gwmpesir gan y Gymrodoriaeth Addysgu

Enw Cyswllt yn y Sefydliad

Swydd

Rhif ffôn

E-bost

Nifer y ceisiadau a gyflwynwyd gan y sefydliad

(Gall pob sefydliad gyflwyno hyd at dri chais. Rhaid cwblhau ffurflen ar wahân ar gyfer pob cais.)

DYSGU A DATBLYGU'R DDARPARIAETH

Disgrifiwch yr addysgu cyfrwng Cymraeg a gaiff ei gynnig gan y Cymrawd Addysgu (isafswm o bum awr yr wythnos), er enghraifft,

- **Maes pwnc, cwrs/cymhwyster yr anelir ato, lefel**
- **Cyfraniad i'r cwrs/modiwl – cyfran y cwrs/modiwl, pynciau/testunau i'w cwmpasu, y math o weithgaredd dysgu (darlithoedd, seminarau, ac ati)**
- **Cyfanswm yr oriau dysgu**
- **Targed o ran niferoedd y myfyrwyr**
- **Sut y caiff myfyrwyr eu recriwtio/eu hannog i ddilyn yr elfennau hyn o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg.**

Disgrifiwch sut y bydd yr addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

- **yn cryfhau ac yn ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg presennol o fewn y maes pwnc hwn, neu**
- **yn cyflwyno darpariaeth cyfrwng Cymraeg lle ceir ychydig neu ddim darpariaeth ar hyn o bryd**

Datblygu'r ddarpariaeth

Amlinellwch y ddarpariaeth a ddatblygir gan y Cymrawd Addysgu (dylai fod yn gyfwerth â modiwl 20 credyd)

- **Maes pwnc, cwrs/cymhwyster yr anelir ato, lefel**
- **Cyfraniad i'r cwrs/modiwl – cyfran y cwrs/modwl**
- **Testunau i'w cwmpasu**
- **Natur y ddarpariaeth a ddatblygir – deunyddiau, dull astudio ac ati**

- **Amlinellwch y dystiolaeth o ran galw/angen am ddarpariaeth yn y maes hwn. Beth yw'r farchnad myfyrwyr bosibl a'r targed o ran niferoedd y myfyrwyr? Sut y caiff myfyrwyr eu recriwtio/eu hannog i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg?**

Sut mae'r ddarpariaeth (dysgu a datblygu darpariaeth newydd) yn cydweddu â

- i) strategaeth gyffredinol y sefydliad ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg?**
- ii) portffolio dysgu cyffredinol yr adran, gan gynnwys ei strategaeth ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg?**

Sut y mae'r sefydliad yn rhagweld y cynhelir y ddarpariaeth unwaith y daw cyfnod y Gymrodoriaeth Addysgu i ben?

CYMORTH SEFYDLIADOL AR GYFER Y GYMRODORIAETH

Y cyfraniad cyllidol a wneir gan y sefydliad £
(ac eithrio Cyfleusterau a Chymorth Arall – gweler isod)

Nodwch ddadansoddiad o sut y caiff yr holl gyllid ar gyfer y gymrodoriaeth, gan gynnwys cyfraniad y Cyngor, ei ddefnyddio.

Cyfleusterau a ddarperir i'r cymrawd addysgu.

(Byddai disgwyl i'r rhain gynnwys cyfleusterau fel swyddfa, cyfleusterau TG – cyfrifiadur â'r meddalwedd diweddaraf, mynediad i'r rhyngwrwyd, e-bost ac ati, offer swyddfa, gwasanaeth llungopïo, ffôn.)

Cymorth arall a roddir i'r Cymrawd Addysgu

(cymorth mentora/academaidd, hyfforddiant a datblygiad personol, cyngor ar ddatblygu cwricwlwm, ac ati)

Datganiad gan y sefydliad ynghylch pam y mae'n cefnogi'r ymgeisydd arbennig hwn ar gyfer y Gymrodoriaeth Addysgu. (Dylid defnyddio'r datganiad hwn i ddarparu geirda ar ran yr ymgeisydd mewn perthynas â'i gymwysterau/addasrwydd ar gyfer y gymrodoriaeth, ac ati, yn hytrach nag i egluro pam y mae'r sefydliad yn dymuno cynyddu addysgu neu ddatblygu darpariaeth yn y maes pwnc penodol – ymdrinnir â hyn mewn man arall ar y ffurflen.)

Llofnod:

Pennaeth yr Adran

Dyddiad:

Llofnod:

Pennaeth y Sefydliad

Dyddiad:

CYMRODORIAETHAU ADDYSGU CYFRWNG CYMRAEG 2004/05

FFURFLEN GAIS

RHAN DAU – I'W CHWBLHAU GAN YR YMGEISYDD

Gellir parhau ag unrhyw ran o'r cais ar dudalen ar wahân os oes angen.

Pan fyddwch wedi cwblhau'r ffurflen hon, rhaid i chi ei rhoi i'r person priodol yn y sefydliad addysg uwch sy'n eich cyflwyno ar gyfer y gymrodoriaeth hon.

MANYLION YR YMGEISYDD
(PRIF LYTHRENAU)
Enw(au) cyntaf
Cyfenw
Cyfeiriad
Rhif ffôn*
Cyfeiriad e-bost*

***Nodwch y gallai fod angen i ni gysylltu â chi yn ystod mis Mehefin/Gorffennaf**

ADDYSG**Addysg uwch**

Dyddiadau	Sefydliad	Pwnc	Cymhwyster a'r corff dyfarnu
------------------	------------------	-------------	-------------------------------------

Crynodeb o'r ymchwil ôl-raddedig**Os na ddyfarnwyd y cymhwyster PhD eto, nodwch y dyddiad y byddwch yn cyflwyno eich traethawd (y dyddiad penodol neu'r dyddiad yr anelir ato – dilëwch fel y bo'n briodol)****Dyddiad penodol/
Dyddiad yr anelir ato****Cyhoeddiadau perthnasol****Aelodaeth o gorff proffesiynol****Ysgoloriaeth i raddedigion neu ddyfarniadau eraill**

Cymwysterau Iaith Gymraeg (uwchradd a/neu addysg uwch)

Dyddiad

Cymhwyster

Corff Dyfarnu

Profiad o addysg drwy gyfrwng y Gymraeg (e.e. mynychu ysgolion Cymraeg/dwyieithog, cyrsiau/rhan o gyrsiau a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgol, addysg bellach neu addysg uwch)

PROFIAD ADDYSGU/DATBLYGU CWRICWLWM

Rhowch fanylion o'ch profiad o/cyfranogiad mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'r holl benawdau isod.

Nodwch, lle y bo'n briodol, a yw'r wybodaeth yn ymwneud â darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu Saesneg

Profiad addysgu

e.e. addysgu israddedig yr ymgwymerwyd ag ef

Cynllunio cwricwlwm

Arferion sicrhau/gwella ansawdd

Gweithgareddau hyfforddiant/datblygu yr ymgwymerwyd â hwy mewn perthynas â ?dysgu (mewnol a/neu allanol)

Profiad o ddefnyddio Cymraeg fel cyfrwng cyfathrebu (ysgrifenedig a llafar)

Rhowch unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol i'r wybodaeth a ddarparwyd eisoes ar y ffurflen.

Datganiad yr ymgeisydd

Nodwch ddatganiad sy'n esbonio eich diddordeb yn y gymrodoriaeth, yr hyn yr ydych yn gobeithio ei gyfrannu a'r profiad yr ydych yn gobeithio ei ennill o'r gymrodoriaeth.

Llofnod:

Dyddiad: